Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

**TEITL:** **Cymunedau Yn Gyntaf: Manylion Diweddaraf y Gronfa Canlyniadau**

**DYDDIAD:** **6 Awst 2008**

**GAN:** **Leighton Andrews , Y Dirprwy Weinidog dros Adfywio**

## Cyflwyniad

Diben y Datganiad hwn yw rhoi adroddiad ar hynt y gwaith sy'n cael ei wneud i ddatblygu Cronfa Canlyniadau Cymunedau yn Gyntaf ac i dynnu sylw Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf at yr angen i ddechrau trafodaethau cyn gynted â phosibl gyda darpar bartneriaid gyda golwg ar baratoi ceisiadau posibl i'r Gronfa. Fel cam cyntaf tuag at sefydlu'r Gronfa, mae'r Datganiad hefyd yn gwahodd ymgeiswyr i gyflwyno prosiectau arddangos fydd yn disgrifio prif egwyddorion y Gronfa Canlyniadau ac yn llywio'r broses o ddatblygu'r Gronfa.

## Y Cefndir

Yn yr ymgynghoriad a gynhaliwyd yn ddiweddarach eleni ar ddyfodol Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, nodwyd ein bwriad i sefydlu "Cronfa Canlyniadau" a fyddai'n gweithredu rhaglen sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau ac yn annog darparwyr gwasanaethau i blygu rhaglenni.

Yn y Datganiad Llafar a wnes yn y Cyfarfod Llawn ar 17 Mehefin, dywedais fod yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn gyffredinol wedi croesawu'r cynnig ar gyfer creu Cronfa Canlyniadau. Cadarnheais ein bwriad i fwrw mlaen â'r cynnig ac y byddem yn rhoi o leiaf £25 miliwn i'r Gronfa yn ystod y tair blynedd nesaf o gyllideb Cymunedau yn Gyntaf. Rydym bellach mewn sefyllfa i ddarparu mwy o fanylion am yr hyn y bydd y Gronfa'n ei ariannu, i

amlinellu'r meini prawf hanfodol ac i wahodd ceisiadau ar gyfer cyflwyno cyfres o brosiectau arddangos.

**Y Gronfa Canlyniadau**

Ar ôl saith mlynedd o'r rhaglen, mae'n amlwg fod angen defnyddio arian Cymunedau yn Gyntaf i ganolbwyntio o'r newydd ar ddarpariaeth reng flaen. Mae'r Gronfa Canlyniadau yn cael eu strwythuro gyda'r nod o annog Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf a'u partneriaid lleol i gydweithio er mwyn sicrhau'r newid gwirioneddol y mae pobl leol yn dymuno'u gweld yn eu hardaloedd. Yn hytrach na chyfeirio'r arian at asiantaethau cymorth ac at y gwaith generig o feithrin gallu, bydd y Gronfa newydd yn dyrannu cyfran uwch o arian Cymunedau yn Gyntaf i waith rheng flaen a arweinir gan Bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf.

Bydd y Gronfa Canlyniadau yn ariannu gweithgareddau sy'n sicrhau gwelliannau gwirioneddol yn lleol o ran mynd i'r afael â blaenoriaethau allweddol Cymunedau yn Gyntaf, sef tlodi ymhlith plant, anweithgarwch economaidd, creu swyddi, sicrhau'r incwm mwyaf posibl ac ati. Dim ond Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf fydd yn gymwys i wneud cais am arian o'r Gronfa Canlyniadau newydd, ond bydd yn rhaid iddynt hefyd ddangos bod ganddynt gefnogaeth y sefydliadau perthnasol sy'n darparu'r gwasanaethau. Bydd croeso i bartneriaid o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector, gan gynnwys landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a chwmnïau cymunedol cydfuddiannol. Hefyd, bydd yn rhaid i ymgeiswyr ddangos y bydd eu cynigion yn cynnwys ac yn rhoi rhan i bobl leol yn y broses o gynllunio a chyflawni'r gweithgaredd hwnnw.

Bydd gan y Gronfa Canlyniadau gyswllt agos â Fframwaith Gweledigaeth Cymunedau yn Gyntaf. Roedd y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn cytuno bod y Framwaith Gweledigaeth yn erfyn defnyddiol, yn gweithredu fel fframwaith perfformiad ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf. Rydym wedi adolygu'r Fframwaith, ar ôl ymgynghori â chydweithwyr ar draws Llywodraeth y Cynulliad, fel ei fod yn helpu'r Partneriaethau i gynllunio'u gweithgareddau yn unol â'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt o ran mynd i'r afael â thlodi ac anfantais. Rhaid i'r ceisiadau i'r Gronfa Canlyniadau allu dangos sut y mae'r gweithgaredd yn cydweddu â system newydd y Fframwaith Gweledigaeth.

**Y Fframwaith Gweledigaeth**

Mae Fframwaith Gweledigaeth Cymunedau yn Gyntaf ar ei newydd wedd yn seiliedig ar chwe phenawd thematig sy'n adlewyrchu'r prif faterion y mae angen mynd i'r afael â hwy mewn ardaloedd lle ceir tlodi ac anfantais hirdymor.

- Tlodi ymhlith Plant
- Diogelwch Cymunedol
- Iechyd a Lles
- Addysg, Sgiliau a Hyfforddiant
- Amgylchedd

- Creu Incwm, Swyddi a Busnesau

Mae'r penawdau thematig ychydig yn wahanol i'r rheini a geir yn y Fframwaith Gweledigaeth gwreiddiol (mae "tlodi ymhlith plant" bellach yn thema ar wahân tra bo "cymuned weithredol" yn awr yn egwyddor trawsbynciol ar gyfer pob prosiect), ond yn gyffredinol, maent yn ymdrin â'r un meysydd polisi ac arfer sy'n effeithio ar gymunedau. Y prif wahaniaeth yw nad yw'r Fframwaith newydd bellach yn rhestru cyfres hir iawn o weithgareddau (ond heb nodi diben y weithgaredd na phwy ddylai ei ddatblygu); yn hytrach, mae wedi ei lunio ar ffurf matrics, i'w ddefnyddio fel erfyn ymarferol gan Bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf, sefydliadau sy'n bartneriaid a'u cynorthwyo i roi polisïau strategol a mentrau wedi'u targedu ar waith.

O dan bob un o themâu'r Fframwaith Gweledigaeth, rhestrir y prif flaenoriaethau strategol sy'n benodol i bob thema, a bydd yn cyfrannu at y broses adfywio ar lefel y gymuned. Bydd y blaenoriaethau'n cael eu mynegi mewn termau sy'n adlewyrchu polisïau Llywodraeth y Cynulliad a strwythur polisi y thema honno. Bydd hyn yn hwyluso mwy o gysylltu rhwng Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf a'r partneriaid posibl ymhlith y sefydliadau sy'n darparu'r prif wasanaethau gyda'r cyfrifoldeb dros gyflawni blaenoriaeth strategol. Bydd pob thema hefyd yn nodi cyfres o wahanol lefelau o weithio mewn partneriaeth –o ddarparwr cymunedol yn bennaf (ond gyda chymorth un o'r darparwyr gwasanaeth) i ddarparwr gwasanaeth yn bennaf (gyda chymorth cymunedol). Y bwriad yw galluogi Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf a'u partneriaid i gynllunio lefel o ymyrraeth sy'n briodol i weithgaredd a phrofiad y Bartneriaeth.

Mae cynnwys manwl y Fframwaith Gweledigiaeth yn cael ei gwblhau ar ôl ei drafod â'r adrannau perthnasol ar draws Llywodraeth y Cynulliad – er mwyn sicrhau ei fod yn cwmpasu'r ystod llawn o bolisïau a blaenoriaethau a ddylai gyfrannu at agenda Cymunedau yn Gyntaf, ac felly'n cyd-fynd â'r egwyddorion sylfaenol ar gyfer Cronfeydd Strwythurol yr UE. Mae ein trafodaethau â Swyddfa Gyllido Ewropeaidd Cymru (WEFO) yn awgrymu y bydd modd i Lywodraeth y Cynulliad gyflwyno ceisiadau ar gyfer nifer o flaenoriaethau o dan y Gronfa Gydgyfeirio er mwyn cael arian cyfatebol ar gyfer prosiectau o'r ardaloedd cymwys. Bydd hyn felly yn cynyddu cyfanswm cost yr arian fydd ar gael ar gyfer y Gronfa Canlyniadau.

Byddwn yn darparu mwy o fanylion y Fframwaith Gweledigaeth i Bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf a'r rhanddeiliaid cyn bo hir. Byddwn yn gwneud cyhoeddiad ynglŷn ag arian yr UE pan fydd ein trafodaethau â WEFO yn dod i ben.

**<u>Datblygiad Terfynol y Gronfa Canlyniadau a'r Prosiectau Arddangos Cyntaf</u>**

Bydd y cylch ariannu nesaf Cymunedau yn Gyntaf yn dechrau ar 1 Ebrill 2009. Bydd y Gronfa Canlyniadau yn ei lle ar gyfer y dyddiad cychwyn hwnnw. Rydym yn cydnabod bod angen gwneud mwy o waith ond ein bwriad yw rhoi cychwyn ar y broses honno'n awr drwy wahodd nifer o brosiectau

arddangos fydd yn caniatáu i ni roi sylw i’r blaenoriaethau i’w hariannu o dan y Gronfa newydd. Erbyn diwedd mis Tachwedd 2008, rydym yn awyddus i fod wedi cymeradwyo cyllid o’r Gronfa Canlyniadau ar gyfer saith prosiect arddangos a gyflwynwyd gan Bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf a’u partneriaid. Ein nod yw cymeradwyo un prosiect arddangos ar gyfer pob un o chwe thema’r Fframwaith Gweledigaeth. Dylai’r seithfed prosiect ddod o dan bennawd cyffredinol Diwylliant ond dylai ymdrin ag o leiaf un (a mwy os yw’n bosibl) o themâu’r Fframwaith Gweledigaeth.

Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf a’u partneriaid fydd yn gyfrifol am bennu’r gweithgaredd o dan y prosiect arddangos ond bydd angen iddynt ddangos sut y bydd y prosiect yn cyfrannu at o leiaf rai o’r blaenoriaethau a nodir o dan y thema a ddewiswyd yn y Fframwaith Gweledigaeth. Yn achos y prosiect Diwylliant, bydd angen i’r noddwyr ddangos pa un o’r themâu y bydd y prosiect yn ei gwasanaethu.

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer statws arddangos, rhaid i’r ymgeiswyr gyflwyno tystiolaeth fod y prosiect yn bodloni’r meini prawf canlynol:

- Ei fod yn cwmpasu mwy nag un o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf o fewn ardal y sir neu fwrdeistref sirol;
- Bod ymrwymiad y darparwr gwasanaeth sy’n bartner yn cael ei gadarnhau drwy gyfrannu arian cyfatebol, sef o leiaf 50% o gost y prosiect.;
- Bod tystiolaeth glir fod y prosiect yn cyd-fynd â blaenoriaethau a chynlluniau strategol lleol; a
- Bod modd i’r prosiect ddangos fod y gymuned wedi cymryd rhan weithredol ynddo ac wedi sicrhau manteision gwirioneddol.

Ni fyddwn yn cymeradwyo mwy nag un prosiect arddangos ym mhob ardal yr awdurdod lleol.

Er mwyn bodloni’r meini prawf a’r amserlenni hyn, mae’n debygol mai prosiect sydd eisoes yn cael ei ddatblygu fydd yn cael ei dderbyn ar gyfer statws arddangos. Dylai noddwyr posibl sydd â chynigion a fyddai’n gymwys ar gyfer prosiectau arddangos yn eu barn hwy gysylltu â thîm Rhanbarthol Cymunedau yn Gyntaf Llywodraeth y Cynulliad cyn gynted â phosibl gyda’r manylion.

**Mynediad at y Gronfa Canlyniadau Lawn**

Rhagwelir y byddwn yn gwahodd y datganiadau cyntaf o ddiddordeb ar gyfer cynigion i gael mynediad at y Gronfa Canlyniadau lawn ym mis Tachwedd 2008. Ni fydd y meini prawf ar gyfer cael arian o’r Gronfa derfynol mor drylwyr â’r rheini ar gyfer y prosiectau arddangos. Serch hynny, bydd angen iddynt hwythau ddangos hefyd (i) sut y maent yn cyd-fynd â’r blaenoriaethau a amlinellir yn y Fframwaith Gweledigaeth; (ii) eu cysylltiadau â chynlluniau strategol lleol; (iii) y rhan y mae’r gymuned yn ei chwarae a’r manteision y bydd yn eu sicrhau. Fwy na thebyg, rhoddir blaenoriaeth o ran cymorth ariannol i brosiectau sy’n cwmpasu mwy nag un o ardaloedd Cymunedau yn

Gyntaf ac sydd wedi ymrwymo arian cyfatebol gan y darparwr gwasanaeth – er y bydd ystyriaethau daearyddol a natur arloesol y prosiect yn cael eu hystyried.

Cyhoeddir canllawiau manwl ar gyflwyno Datganiadau o Ddiddordeb ar gyfer y Gronfa Canlyniadau cyn bo hir.